Y Comisiwn Etholiadol

# Canllawiau ar gyfer Etholiadau

I bleidleiswyr dienw



# Y Comisiwn Etholiadol

Pan fyddwch yn cofrestru i bleidleisio, bydd eich enw a'ch cyfeiriad yn ymddangos ar y gofrestr etholiadol. Os ydych yn teimlo y gallai cael eich enw a'ch cyfeiriad ar y gofrestr etholiadol effeithio ar eich diogelwch, neu ddiogelwch rhywun sy'n byw gyda chi, gallwch gofrestru i bleidleisio'n ddienw.


Bydd hyn yn golygu y gallwch barhau i bleidleisio, ond ni fydd eich enw na'ch cyfeiriad ar y gofrestr etholiadol. Dim ond eich rhif etholwr fydd yn ymddangos.

Yn wahanol i bleidleiswyr eraill sy'n gallu defnyddio amrywiaeth o wahanol fathau o ID ffotograffig i bleidleisio'n bersonol mewn gorsaf bleidleisio, mae'n ofynnol i bleidleiswyr sydd wedi cofrestru i bleidleisio'n ddienw wneud cais am Ddogfen Etholwr Dienw am ddim yn lle hynny.

Mae'r canllawiau hyn ar gyfer etholiadau yn cynnwys gwybodaeth am:

- Beth yw cofrestru'n ddienw
- Sut i gofrestru i bleidleisio'n ddienw
  - Gwneud cais am Ddogfen Etholwr Dienw
  - Pa etholiadau sy'n gofyn am Ddogfen Etholwr Dienw?
  - Gwneud cais am Ddogfen Etholwr Dienw newydd
- Beth i'w ddisgwyl mewn gorsaf bleidleisio
  - Pa gymorth sydd ar gael yn yr orsaf bleidleisio
- Ffyrdd eraill o bleidleisio: pleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy

Mae gennym hefyd adnoddau ar gael i bobl nad oes angen iddynt gofrestru i bleidleisio'n ddienw. Mae'r adnoddau hyn yn esbonio'r broses cofrestru i bleidleisio, y gofyniad ID ffotograffig, sut i wneud cais am ID pleidleisiwr am ddim, beth i'w ddisgwyl yn yr orsaf bleidleisio a ffyrdd eraill o bleidleisio. Cewch ragor o wybodaeth yn **electoralcommission.org.uk/id-pleidleisiwr**




Os ydych am bleidleisio, rhaid i chi fod wedi cofrestru i bleidleisio yn gyntaf. Pan fyddwch yn cofrestru i bleidleisio, bydd eich enw a'ch cyfeiriad yn ymddangos ar y gofrestr etholiadol.

Os ydych chi'n poeni y gallai cael eich enw a'ch cyfeiriad ar y gofrestr etholiadol effeithio ar eich diogelwch, neu ddiogelwch rhywun sy'n byw gyda chi, efallai y gallwch wneud cais i gofrestru fel pleidleisiwr dienw.

Dyma sut mae cofnodion fel arfer yn ymddangos ar y gofrestr etholiadol:

| | | |
|---|---|---|
| **BC412** | **Vella, John** | **59 Green Lane** |
| **BC413** | **Vella, Veronica** | **59 Green Lane** |

Dyma sut mae cofnodion dienw yn ymddangos ar y gofrestr etholiadol:

| | |
|---|---|
| **BC602** | **N** |

Mae'r '**N**' yn dynodi bod y cofnod hwn yn perthyn i bleidleisiwr sydd wedi cofrestru'n ddienw.

Mae Mae hyn yn golygu os ydych wedi cofrestru i bleidleisio'n ddienw, byddwch yn dal i allu pleidleisio, ond ni fydd eich enw na'ch cyfeiriad yn ymddangos ar y gofrestr etholiadol.

## Y broses gwneud cais

Os ydych am gofrestru i bleidleisio'n ddienw, bydd angen i chi:

- Cwblhau ffurflen gais
- Egluro pam y byddai eich diogelwch, neu ddiogelwch rhywun yn eich cartref, mewn perygl pe bai eich manylion ar y gofrestr etholiadol
- Cyflwyno tystiolaeth neu ardystiad i gefnogi eich cofrestriad
- Dychwelyd y ffurflen gais, yr esboniad a'r dystiolaeth neu'r ardystiad i'ch Swyddog Cofrestru Etholiadol lleol.

Ceir rhagor o wybodaeth am y broses gwneud cais ynghyd â'r ffurflen gais yn **electoralcommission.org.uk/cy/rwyf-yneg-pleidleisiwr/pleidleisiwr/cofrestru-i-bleidleisio/cofrestru-i-bleidleision-dd-ienw**

Os oes angen unrhyw help arnoch i bleidleisio'n ddienw, gallwch gysylltu â'ch cyngor lleol. Gallwch ddod o hyd i'w manylion cyswllt trwy fynd i **electoralcommission.org.uk/pleidleisio-ac-etholiadau**

## Am ba hyd y bydd y cofrestriad dienw yn bleidleisio'n ddilys?

Bydd y cofrestriad yn para am 12 mis o'r diwrnod y gwneir y cofnod dienw ar y gofrestr gyntaf. Ar ôl 12 mis, bydd angen i chi wneud cais arall i gofrestru'n ddienw.

Bydd eich Swyddog Cofrestru Etholiadol yn cysylltu â chi mewn da bryd er mwyn rhoi gwybod pa wybodaeth sydd ei hangen er mwyn i'r cofrestiad barhau am 12 mis arall. Ar yr amod ei bod/fod yn ddilys o hyd, gellir defnyddio'r un dystiolaeth neu ardystiad i adnewyddu eich cofrestriad dienw.




Y dyddiad cau ar gyfer cofrestru i bleidleisio'n ddienw mewn etholiad penodol yw **6 diwrnod gwaith** cyn dyddiad yr etholiad hwnnw.


Unwaith y byddwch wedi cofrestru i bleidleisio'n ddienw a'ch cais wedi'i gymeradwyo, byddwch yn cael eich cofrestru fel pleidleisiwr dienw am 12 mis. Bydd angen i chi ailymgeisio bob blwyddyn.

I gael rhagor o wybodaeth am gofrestru i bleidleisio'n ddienw, neu ym mha etholiadau y gallwch bleidleisio ynddynt, cysylltwch â'ch cyngor lleol. I ddod o hyd i'w manylion cyswllt, neu i gael rhagor o wybodaeth, ewch i **electoralcommission.org.uk/cy/pleidleisio-ac-etholiadau**, neu ffoniwch ein llinell gymorth ar **0800 328 0280.**

Mae'r tabl hwn yn dangos pwy all gofrestru i bleidleisio yng Nghymru, Lloegr a'r Alban:

| Rwy'n... | Rwy'n byw yn Lloegr | Rwy'n byw yn yr Alban | Rwy'n byw yng Nghymru |
|---|---|---|---|
| **Ddinesydd Prydeinig, Gwyddelig neu ddinesydd cymwys y Gymanwlad sy'n byw yn y DU** | **YDW** (yn 16 oed) | **YDW** (yn 14 oed) | **YDW** (yn 14 oed) |
| **Dinesydd yr UE sy'n byw yn y DU** | **YDW** (yn 16 oed) | **YDW** (yn 14 oed) | **YDW** (yn 14 oed) |
| **Dinesydd tramor cymwys** (rhywun sy'n byw yng Nghymru neu'r Alban gyda chaniatâd i ddod i mewn i'r DU, neu i aros yno, neu nad oes angen caniatâd o'r fath arno) | **NAC YDW** | **YDW** (yn 14 oed) | **YDW** (yn 14 oed) |

Er y gallwch gofrestru i bleidleisio yn 14 oed yng Nghymru a'r Alban, ni allwch bleidleisio yn yr etholiadau canlynol hyd nes eich bod yn 18 oed: etholiadau cyffredinol Senedd y DU, is-etholiadau a deisebau adalw Senedd y DU, ac etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (a gynhelir yng Nghymru a Lloegr yn unig). Gallwch gofrestru i bleidleisio yn 16 oed yn Lloegr.




Os ydych wedi'ch cofrestru'n ddienw a'ch bod am bleidleisio mewn gorsaf bleidleisio mewn etholiad penodol, bydd angen i chi wneud cais am Ddogfen Etholwr Dienw erbyn **5pm, 6 diwrnod gwaith** cyn dyddiad yr etholiad hwnnw. Ni allwch ddefnyddio unrhyw fathau eraill o ID pleidleisiwr i bleidleisio.

Gall pobl sydd wedi'u cofrestru i bleidleisio ond nad ydynt wedi cofrestru fel pleidleiswyr dienw ddefnyddio amrywiaeth o fathau o ID ffotograffig i bleidleisio, mewn etholiadau lle mae hynny'n ofynnol. Ceir rhestr lawn o fathau o ID a dderbynnir yn **electoralcommission.org.uk/id-pleidleisiwr**, neu ffoniwch ein llinell gymorth ar **0800 328 0280** am ragor o wybodaeth.

Os ydych eisoes wedi cofrestru i bleidleisio'n ddienw, neu os byddwch yn cofrestru i bleidleisio'n ddienw cyn etholiad, byddwch yn cael eich gwahodd i wneud cais am Ddogfen Etholwr Dienw gan eich Swyddog Cofrestru Etholiadol lleol. Gallwch hefyd gysylltu â'ch Swyddog Cofrestru Etholiadol i wneud cais am un.

## Cael cymorth i wneud cais am Ddogfen Etholwr Dienw

Os oes angen cymorth arnoch, gallwch gysylltu â'ch Swyddog Cofrestru Etholiadol lleol os bydd gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r broses gwneud cais.

Gallwch ddod o hyd i fanylion cyswllt eich Swyddog Cofrestru Etholiadol lleol drwy nodi eich cod post yn **electoralcommission.org.uk/cy/pleidleisio-ac-etholiadau**

## Y broses gwneud cais

Wrth wneud cais am Ddogfen Etholwr Dienw, bydd angen i chi ddarparu eich:

- ☑ **Enw**
- ☑ **Cyfeiriad**
- ☑ **Dyddiad geni**
- ☑ **Rhif Yswiriant Gwladol**

Os nad ydych yn gwybod eich rhif Yswiriant Gwladol, gallwch chwilio amdano ar eich slipiau cyflog neu ar lythyrau swyddogol am dreth, pensiynau neu fudd-daliadau.

Os na allwch ddod o hyd iddo, gallwch gwblhau eich cais o hyd, ond bydd angen i chi ddarparu mathau eraill o brawf adnabod, a allai gynnwys pasbort, trwydded yrru, tystysgrif geni, cyfriflen banc neu fil cyfleustodau. Bydd eich cyngor lleol yn cysylltu â chi i drefnu hyn.

Gallwch hefyd ofyn i rywun sy'n eich adnabod roi ardystiad i'r Tîm Gwasanaethau Etholiadol er mwyn cadarnhau pwy ydych os nad oes gennych unrhyw fath arall o brawf adnabod a dderbynnir.

Gall eich Swyddog Cofrestru Etholiadol ddarparu rhagor o wybodaeth am bwy all ddarparu ardystiad. Gallwch ddod o hyd i'w fanylion cyswllt drwy nodi eich cod post yn **electoralcommission.org.uk/cy/pleidleisio-ac-etholiadau**

## Darparu llun


Bydd angen i chi gyflwyno llun hefyd. Mae'r gofynion ar gyfer y llun yn debyg i'r rhai ar gyfer lluniau pasbort ac mae'n rhaid chi ddangos eich pen a'ch ysgwyddau heb unrhyw beth yn gorchuddio eich pen – oni bai eich bod yn gwisgo gorchudd pen am resymau crefyddol neu feddygol. Ni cheir gorchuddio'r wyneb am unrhyw reswm.

Os bydd angen help arnoch i dynnu eich llun, mae'n bosibl y gall eich Swyddog Cofrestru Etholiadol lleol eich helpu.

I gael rhagor o wybodaeth am y gofynion ar gyfer y llun, gweler Atodiad 1 neu ewch i **electoralcommission.org.uk/id-pleidleisiwr**

Bydd eich cyngor lleol yn prosesu'r cais ac yn anfon y Ddogfen Etholwr Dienw atoch drwy'r post.

Caiff yr holl ddata y byddwch yn eu darparu wrth wneud cais am Ddogfen Etholwr yn cael eu storio'n ddiogel gan gynghorau lleol yn unol â rheoliadau diogelu data.





Mae Dogfen Etholwr Dienw yn cynnwys y geiriau ‘Dogfen Etholwr’ ar y brig ac nid yw’n cyfeirio at eich statws fel rhywun sydd wedi cofrestru i bleidleisio’n ddienw.

Mae Dogfen Etholwr Dienw yn cynnwys:

- y dyddiad cyflwyno
- llun ohonoch chi
- eich rhif etholiadol (sef y rhif a fydd yn ymddangos ar y gofrestr etholiadol yn lle eich enw a’ch cyfeiriad)
- dynodwr priodol (sy’n gyfuniad o 20 o lythrennau a rhifau wedi’i greu gan y feddalwedd a ddefnyddir gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol).

Os byddwch yn pleidleisio’n ddienw bydd angen i chi ddod â’ch Dogfen Etholwr Dienw a’ch cerdyn pleidleisio gyda chi pan fyddwch yn mynd i’r orsaf bleidleisio. Ni fydd angen i chi ddod â math ychwanegol o ID ffotograffig.




Mae bellach yn ofynnol i bleidleiswyr yng Nghymru, Lloegr a'r Alban sydd wedi'u cofrestru i bleidleisio'n ddienw ddangos Dogfen Etholwr Dienw pan fyddant yn pleidleisio mewn gorsaf bleidleisio mewn rhai etholiadau.

## Angen Dogfen Etholwr Dienw…



### Cymru

- Etholiadau cyffredinol Senedd y DU
- Is-etholiadau a deisebau adalw Senedd y DU
- Etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu



### Lloegr

- Etholiadau cyffredinol Senedd y DU
- Is-etholiadau a deisebau adalw Senedd y DU
- Etholiadau ac is-etholiadau cynghorau lleol
- Etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu



### Yr Alban

- Etholiadau cyffredinol Senedd y DU
- Is-etholiadau a deisebau adalw Senedd y DU

## Nid oes angen Dogfen Etholwr Dienw ar gyfer…

Etholiadau'r Senedd yng Nghymru na Senedd yr Alban, nac etholiadau cyngor ac is-etholiadau cyngor yng Nghymru a'r Alban.

# Beth i'w ddisgwyl mewn gorsaf bleidleisio

Bydd gorsafoedd pleidleisio ar agor rhwng 7:00 AM a 10:00 PM ar ddiwrnod yr etholiad.

Tua phythefnos cyn diwrnod yr etholiad, bydd gwybodaeth am leoliadau gorsafoedd pleidleisio yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Comisiwn Etholiadol. Bydd cyfeiriad eich gorsaf bleidleisio hefyd ar eich cerdyn pleidleisio, a byddwch yn ei dderbyn yn y post.

Bydd arwyddion y tu allan a'r tu mewn i'r orsaf bleidleisio i ddangos i chi ble i fynd.

Os byddwch yn pleidleisio'n ddienw bydd angen i chi ddod â'ch cerdyn pleidleisio a'ch Dogfen Etholwr Dienw pan fyddwch yn mynd i bleidleisio.

Gallwch ddod o hyd i'w manylion cyswllt trwy nodi'ch cod post yn **electoralcommission.org.uk/cy/pleidleisio-ac-etholiadau**

Pan fyddwch yn cyrraedd, byddwch yn cael eich cyfarch gan aelod o staff, a fydd yn:

1. Gofyn am gael gweld eich cerdyn pleidleisio. Ni fydd angen i chi roi eich enw a'ch cyfeiriad
2. Dod o hyd i'ch rhif etholwr ar y gofrestr
3. Gwirio eich Dogfen Etholwr Dienw
4. Eich croesi oddi ar y rhestr, ac yn rhoi eich papur pleidleisio i chi.

## Preifatrwydd

Bydd ardal breifat ar gael fel y gallwch ddewis i'ch Dogfen Etholwr Dienw gael ei gwirio'n breifat. Gall hyn fod mewn ystafell ar wahân, neu mewn ardal â sgrin breifatrwydd.

Gellir gwneud cais i aelod benywaidd o staff wirio eich Dogfen Etholwr Dienw. Caniateir y cais hwn os bydd yn bosibl.

Os byddwch yn gwisgo gorchudd wyneb fel fêl, dylai fod drych ar gael fel y gallwch ei gosod yn ôl yn syth ar ôl i'ch Dogfen Etholwr Dienw gael ei gwirio.

Os byddwch yn gwisgo gorchudd wyneb am resymau meddygol ac y byddai'n well gennych beidio â'i dynnu dan do, mae'n bosibl y gall staff yr orsaf bleidleisio wirio eich Dogfen Etholwr Dienw yn yr awyr agored. Os bydd gennych unrhyw bryderon, gallwch gysylltu â'ch tîm Gwasanaethau Etholiadol lleol.

## Dysgwch fwy am beth i'w ddisgwyl

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am beth i'w ddisgwyl yn yr orsaf bleidleisio, dylech gysylltu â'ch cyngor lleol.




## Cyfarpar cynorthwyol

Mae gan bob pleidleisiwr yr hawl i bleidleisio'n annibynnol ac yn gyfrinachol. Bydd rhywfaint o gyfarpar cynorthwyol ar gael yn yr orsaf bleidleisio i'ch helpu i wneud hynny.

Cysylltwch â'r cyngor sy'n gyfrifol am eich gorsaf bleidleisio i ganfod pa gyfarpar cynorthwyol fydd ar gael ac i ofyn am unrhyw gyfarpar ychwanegol sydd ei angen. Bydd y cyngor yn penderfynu a ellir darparu'r cyfarpar y gofynnir amdano ai peidio.

Gallwch ddod o hyd i fanylion cyswllt eich cyngor lleol drwy ffonio ein llinell gymorth ar **0800 328 0280** neu drwy nodi eich cod post yn **electoralcommission.org.uk/cy/pleidleisio-ac-etholiadau**

## Mathau eraill o gymorth

Gall y Swyddog Llywyddu eich helpu i fwrw eich pleidlais os byddai hyn yn ddefnyddiol i chi. Mae staff yr orsaf bleidleisio yno i helpu, a dylech ofyn i aelod o staff os bydd gennych unrhyw gwestiynau neu os bydd angen cymorth arnoch. Os ydych yn anabl neu'n teimlo na allwch bleidleisio mewn gorsaf bleidleisio heb gymorth, gallwch ddod â rhywun gyda chi i helpu.

Gall unrhyw un dros 18 oed fynd gydag unigolyn sy'n pleidleisio yn:

- Etholiadau cyffredinol, is-etholiadau neu ddeisebau adalw Senedd y DU;
- Etholiadau cynghorau yn Lloegr; ac
- Etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru a Lloegr.

Gall unrhyw un dros 16 oed ddod gyda pherson anabl i bleidleisio yn:

- Etholiadau'r Senedd yng Nghymru a'r Alban
- Etholiadau cynghorau yng Nghymru a'r Alban.

Ni fydd angen i'r cydymaith ddangos ID ffotograffig.

Os bydd cydymaith yn eich helpu yn y bwth pleidleisio, dylech roi gwybod i staff yr orsaf bleidleisio pan fyddwch yn cyrraedd. Bydd angen i'r cydymaith lofnodi datganiad er mwyn cael mynd i'r bwth pleidleisio i'ch helpu i bleidleisio.

## Beth ddylech chi ei wneud os cewch chi broblemau yn yr orsaf bleidleisio?

Os byddwch chi'n cael unrhyw broblemau wrth fynd i bleidleisio neu os ydych chi am roi adborth am eich profiad, dylech gysylltu â'ch cyngor lleol.




Os byddwch wedi cofrestru i bleidleisio ond y byddai'n well gennych beidio â phleidleisio'n bersonol, mae opsiynau eraill.

## Pleidleisio drwy'r post

Nid oes angen ID ffotograffig neu Ddogfen Etholwr Dienw arnoch i bleidleisio drwy'r post

Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais i bleidleisio drwy'r post mewn etholiad penodol yw **5pm, 11 diwrnod gwaith** cyn dyddiad yr etholiad hwnnw.

Os byddai'n well gennych bleidleisio drwy'r post neu os na fyddwch yn gallu cyrraedd yr orsaf bleidleisio ar y diwrnod pleidleisio, gallwch wneud cais i bleidleisio drwy'r post.

Pan fyddwch yn gwneud cais am bleidlais bost, bydd angen i chi nodi eich dyddiad geni, eich rhif yswiriant gwladol a'ch llofnod. Bydd angen i chi ddarparu eich dyddiad geni a'ch llofnod eto pan fyddwch yn cwblhau'r pecyn pleidleisio drwy'r post, fel y gellir cadarnhau pwy ydych. Byddwch yn cael eich papur pleidleisio drwy'r post. Bydd angen i chi ddilyn y cyfarwyddiadau i gwblhau a dychwelyd eich papur pleidleisio, gan sicrhau eich bod yn gadael digon o amser iddo gyrraedd eich cyngor lleol erbyn 10pm ar ddiwrnod yr etholiad. Os na allwch bostio eich pecyn pleidleisio drwy'r post mewn pryd, gallwch fynd ag ef i'ch gorsaf bleidleisio neu swyddfa eich cyngor lleol ar y diwrnod pleidleisio. Bydd unrhyw un sy'n cyflwyno pleidlais bost yn cael ffurflen i'w chwblhau. Os ydych yn poeni am gyflwyno eich pleidlais bost fel pleidleisiwr dienw, cysylltwch â thîm Gwasanaethau Etholiadol eich cyngor lleol.

Bydd eich pecyn pleidlais bost yn cynnwys gwybodaeth am bwy i gysylltu â nhw i gael gwybod i ba swyddfa cyngor y gallwch chi gyflwyno eich pleidlais bost.

## Pleidleisio drwy ddirprwy
**(caniatáu i rywun rydych yn ymddiried ynddo bleidleisio ar eich rhan)**


Gallwch wneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy, sef pan fyddwch yndewis rhywun rydych yn ymddiried ynddo i fynd i'ch gorsaf bleidleisio ar eich rhan.

Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy mewn etholiad penodol yw **5pm, 6 diwrnod gwaith** cyn dyddiad yr etholiad hwnnw.

Bydd angen i'r person yr ydych yn ei ddewis i bleidleisio ar eich rhan fynd i'ch orsaf bleidleisio. Bydd angen iddo ddangos ei ID ffotograffig ei hun, nid eich ID ffotograffig chi.

Os bydd argyfwng yn codi ar ôl y dyddiad cau i wneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy, sy'n golygu na allwch fynd i'ch gorsaf bleidleisio neu'r man pleidleisio yn bersonol, gallwch wneud cais am bleidlais drwy ddirprwy mewn argyfwng hyd at 5pm ar ddiwrnod yr etholiad.


Ceir rhagor o wybodaeth am bleidleisio drwy'r post a thrwy ddirprwy yn **electoralcommission.org.uk/cy/pleidleisio-ac-etholiadau** neu drwy ffonio ein llinell gymorth ar **0800 328 0280**.




Os caiff eich Dogfen Etholwr Dienw ei cholli, ei dwyn, ei dinistrio neu ei difrodi ar ôl **5pm, 6 diwrnod gwaith** cyn dyddiad yr etholiad ond cyn **5pm ar ddiwrnod yr etholiad**, gallwch ofyn am Ddogfen Etholwr Dienw newydd.

Bydd angen i chi ofyn am Ddogfen Etholwr Dienw newydd erbyn 5pm ar y diwrnod pleidleisio. Bydd angen i chi ei chasglu'n bersonol o'r man a nodir gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol lleol.

## Atodiad 1




### Cofrestru i bleidleisio yng Nghymru

I gofrestru i bleidleisio yng Nghymru, rhaid i chi fod yn 14 oed neu’n hŷn. Hefyd, rhaid i chi fod yn un o’r canlynol:

- yn ddinesydd o’r DU neu Iwerddon
- yn ddinesydd cymwys y Gymanwlad sy’n byw yng Nghymru
- yn ‘ddinesydd tramor cymwys’ – dinesydd gwlad arall sydd â chaniatâd i ddod i mewn i’r DU neu aros ynddi, neu nad oes angen caniatâd o’r fath arnoch.

Ar ôl cofrestru, gallwch bleidleisio yn yr etholiadau canlynol, oni nodir yn wahanol:

- Etholiadau cyffredinol, is-etholiadau a deisebau adalw Senedd y DU, pan fyddwch yn 18 oed (oni bai eich bod yn ‘ddinesydd tramor cymwys’)
- Etholiadau ac is-etholiadau Senedd Cymru, pan fyddwch yn 16 oed
- Etholiadau cynghorau lleol, pan fyddwch yn 16 oed
- Etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, pan fyddwch yn 18 oed (oni bai eich bod yn ‘ddinesydd tramor cymwys’).

## Cofrestru i bleidleisio yn Lloegr

Er mwyn bod yn gymwys i gofrestru i bleidleisio yn Lloegr, rhaid i chi fod yn un o'r canlynol:

- yn ddinesydd o'r DU neu Iwerddon
- yn ddinesydd cymwys y Gymanwlad sy'n byw yn Lloegr
- yn ddinesydd UE cymwys, neu'n ddinesydd yr UE sydd â hawliau a gedwir sy'n byw yn Lloegr.

I gofrestru i bleidleisio yn Lloegr, rhaid i chi fod yn 16 oed neu'n hŷn.

Ar ôl cofrestru, gallwch bleidleisio yn yr etholiadau canlynol, oni nodir yn wahanol:

- Etholiadau cyffredinol, is-etholiadau a deisebau adalw Senedd y DU, pan fyddwch yn 18 oed (oni bai eich bod yn 'ddinesydd tramor cymwys')
- Etholiadau ac is-etholiadau cynghorau lleol, pan fyddwch yn 18 oed
- Etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, pan fyddwch yn 18 oed.

Os ydych yn ansicr a ydych yn gymwys i bleidleisio ewch i **www.electoralcommission.org.uk/cy/rwyf-yneg-pleidleisiwr/pleidleisiwr/ym-mha-etholiadau-alla-i-bleidleisio**

## Cofrestru i bleidleisio yn yr Alban


I gofrestru i bleidleisio yn yr Alban, rhaid i chi fod yn 14 oed neu'n hŷn. Rhaid i chi hefyd fod yn un o'r canlynol:

- Yn ddinesydd o'r DU neu Iwerddon
- Yn ddinesydd cymwys o'r Gymanwlad sy'n byw yn yr Alban
- Yn 'ddinesydd tramor cymwys' – dinesydd o wlad arall sydd â chaniatâd i ddod i mewn i'r DU neu aros ynddi, neu nad oes angen caniatâd o'r fath arnoch, gan gynnwys dinasyddion yr UE.

Unwaith y byddwch wedi cofrestru, gallwch bleidleisio yn yr etholiadau canlynol, oni nodir yn wahanol:

- Etholiadau cyffredinol, is-etholiadau a deisebau adalw Senedd y DU, pan fyddwch yn 18 oed (oni bai eich bod yn 'wladolyn tramor cymwys')
- Etholiadau ac is-etholiadau Senedd yr Alban, pan fyddwch yn 16 oed
- Etholiadau cynghorau lleol, pan fyddwch yn 16 oed.

## Atodiad 2




## Arddull y llun

Rhaid i'r llun fod ohonoch chi:

- Yn wynebu ymlaen ac yn edrych yn syth at y camera
- Gyda golwg agos o'ch pen a'ch ysgwyddau ysgwyddau, heb unrhyw orchudd pen, oni bai y caiff ei wisgo am resymau crefyddol neu feddygol. Ni ddylai eich wyneb gael ei orchuddio am unrhyw reswm
- Heb unrhyw berson arall yn y llun
- Â mynegiant wyneb plaen a'ch llygaid ar agor ac yn weladwy (heb sbectol haul a heb eu cuddio â gwallt, ac ati). Noder nad yw hyn yn gymwys os na allwch ddarparu llun sy'n cydymffurfio â'r naill ofyniad neu'r llall, neu'r ddau ofyniad, oherwydd anabledd.

## Ansawdd y llun

Rhaid i'r llun ohonoch fod:

- Yn wirioneddol debyg i chi, heb ddefnyddio Photoshop na hidlwyr
- Mewn lliw
- Wedi'i dynnu yn erbyn cefndir plaen, golau
- Mewn ffocws ac yn eglur
- Heb 'lygaid coch', cysgodion ar yr wyneb, nac adlewyrchiad
- Heb ei ddifrodi.

## Maint y llun

Pan fyddwch yn gwneud cais ar-lein, rhaid i'r llun a ddarperir gennych fod:

- O leiaf 750 picsel o uchder a 600 picsel o led
- Mewn ffeil electronig nad yw'n fwy na 20MB o faint.

Pan fyddwch yn gwneud cais gan ddefnyddio ffurflen bapur, rhaid i'r llun fod:

- O leiaf 45 milimetr o uchder a 35 milimetr o led
- Yn ddim mwy na 297 milimetr o uchder na 210 milimetr o led.

# Y Comisiwn Etholiadol

I gael rhagor o wybodaeth am:

- Cofrestru i bleidleisio
- Pa etholiadau sy'n gofyn am ID ffotograffig
- Pa ID ffotograffig a dderbynnir wrth bleidleisio
- Sut i wneud cais am ID ffotograffig am ddim

**electoralcommission.org.uk/id-pleidleisiwr**

**0800 328 0280**

Dilynwch ni ar:

**@ElectoralWales**

**facebook.com/ElectoralCommissionUK**

**@ElectoralCommissionUK**